# Amlinelliad o'r cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg – Fersiwn Ymgynghori



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

# Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r cymhwyster CBAC TGAU Dylunio a Thechnoleg sydd ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2026.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

# Trosolwg o'r Cymhwyster

Mae'r cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg yn cael ei lunio ar sail ystyriaethau pwnc-benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg[1].

Bydd y cymhwyster:

- drwy'r broses ddylunio a datblygu, yn caniatáu i ddysgwyr archwilio ac ymateb i gyd-destunau amrywiol ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain. Ar yr un pryd, byddant hefyd yn ymwneud â phrofiadau sy'n gyfoethog ac yn ddilys.

Mae'r datganiadau canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg yn seiliedig ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg[2]:

- mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau
- mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas
- mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi
- mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau
- mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd
- mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.

Bydd y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy gefnogi'r egwyddorion cynnydd[3]:

- effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr drwy ddatblygu eu defnydd o sgiliau
- ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol drwy archwilio a phrofi syniadau a chysyniadau cynyddol gymhleth
- dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau a phrofiad
- datblygu gallu dysgwyr i ymchwilio, archwilio, datrys problemau a dylunio yn yr amgylcheddau ffisegol a digidol
- caniatáu i ddysgwyr wneud cysylltiadau a throsglwyddo eu dysgu i gyd-destunau newydd

[1] Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Cyflwyniad – Hwb (gov.wales)

[2] Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb (llyw.cymru)

[3] Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Egwyddorion cynnydd - Hwb (llyw.cymru)



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Strwythur y Cymhwyster

| |
|---|
| **Uned 1: Dylunio a Thechnoleg yn yr 21ain Ganrif**<br>Arholiad digidol<br>30% o'r cymhwyster<br>Wedi'i farcio gan CBAC |
| **Uned 2: Project Dylunio**<br>Asesiad di-arholiad<br>70% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC |

Bwriadwn y canrannau canlynol ar gyfer y pedwar amcan asesu:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o'r egwyddorion, y deunyddiau, yr adnoddau a'r technegau a ddefnyddir mewn dylunio a thechnoleg | 15% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o'r egwyddorion, y deunyddiau, yr adnoddau a'r technegau a ddefnyddir mewn dylunio a thechnoleg | 30% |
| **AA3** | **Datblygu** dyluniadau a chynhyrchion diriaethol | 35% |
| **AA4** | **Dadansoddi a gwerthuso** cynhyrchion ac atebion mewn ystod o gyd-destunau dylunio a thechnoleg | 20% |

Rhaid i ddysgwyr ddewis **un** o'r llwybrau canlynol:
- dylunio peirianyddol
- ffasiwn a thecstilau
- dylunio cynnyrch

Rhaid i ddysgwyr ddewis yr un llwybr â'r hyn a ddewiswyd ar gyfer y ddwy uned.

- Cymhwyster llinol fydd hwn. Gellid cwblhau Uned 2 ar unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd a'i chyflwyno i CBAC ym mlwyddyn olaf y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau mai dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol y caiff asesiad ei gwblhau. Byddai Uned 1 yn cael ei chwblhau yn ystod blwyddyn olaf y cwrs.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# Gwybodaeth am Unedau

## Uned 1 – Dylunio a Thechnoleg yn yr 21ain Ganrif

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- caniatáu i ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â Dylunio a Thechnoleg
- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r ffordd y caiff amrywiaeth o gynhyrchion, gan gynnwys rhai modern a rhai hanesyddol, eu dylunio, eu datblygu, eu cynhyrchu a'u defnyddio
- cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso'r cysylltiadau rhwng egwyddorion dylunio da, datrysiadau presennol a gwybodaeth dechnolegol.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- datblygu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd creadigrwydd ac arloesi i arfer dylunio da
- dadansoddi cynhyrchion presennol sy'n ymateb i anghenion, dymuniadau a gwerthoedd y defnyddwyr
- datblygu dealltwriaeth dysgwyr o ffactorau sy'n effeithio ac yn dylanwadu ar ddylunio, gan gynnwys ffactorau hanesyddol, cymdeithasol / diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad digidol yn ystod ail flwyddyn y cwrs. Bydd yn cael ei osod gan CBAC a bydd ar gael o gyfres haf 2028 ymlaen. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA2 yn gyfartal. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tua 1 awr 30 munud o hyd, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach oherwydd y fformat digidol newydd, sy'n berthnasol i hydrinedd o ran y dysgwyr a'r canolfannau. Caiff cwestiynau eu gosod mewn cyd-destun dadansoddi cynnyrch a, lle y bo'n briodol, byddant yn cyfeirio at ddylunwyr, cynhyrchion ac ymarferwyr o Gymru, yn ogystal ag ymarferwyr o'r DU ac o bedwar ban byd.

## Uned 2 – Project Dylunio

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- cynnig y cyfle i ddysgwyr nodi a datrys problemau ‘bywyd go iawn’ drwy ddylunio a chreu cynhyrchion neu systemau sy'n ymateb i anghenion, dymuniadau a gwerthoedd y marchnadoedd targed
- cynnig y cyfle i ddysgwyr gymhwyso'r broses ddylunio iteraidd wrth ddatblygu datrysiadau, gan gynnwys dadansoddi, gwerthuso a mireinio syniadau wrth iddynt ddatblygu
- datblygu gallu dysgwyr i weithgynhyrchu prototeipiau o ansawdd uchel sy'n gweithredu'n llawn, yn addas at y diben ac yn ymateb i anghenion, dymuniadau a gwerthoedd y defnyddwyr.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- nodi amrywiaeth o gyfleoedd dylunio posibl
- cynhyrchu briff(iau) dylunio clir a manylebau manwl sy'n caniatáu i syniadau dylunio gael eu cynhyrchu, eu profi, eu datblygu a'u mireinio yn gynigion o safon
- cymhwyso'r broses ddylunio iteraidd er mwyn darparu datrysiadau creadigol ac arloesol
- cynhyrchu prototeipiau terfynol o safon sy'n datrys problemau a nodwyd, gan ddefnyddio offer, cyfarpar a phrosesau priodol yn ddiogel ac yn effeithiol



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

- dadansoddi a gwerthuso datrysiadau dylunio gan ystyried anghenion, dymuniadau a gwerthoedd y defnyddwyr terfynol

Bydd yr uned ar ffurf asesiad di-arholiad. Cyflwynir y gwaith a thystiolaeth ategol yn ddigidol ym mlwyddyn olaf y cwrs yn ystod cyfres yr haf.

Bydd cymysgedd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Bydd y pwysoli uwch am AA3, wedi'i ddilyn gan AA4, ac yna AA2. Bydd CBAC yn gosod y briffiau cyd-destun dylunio ar ddechrau'r cwrs, i'w cyflwyno'n ddigidol yn ystod blwyddyn olaf y cwrs.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Wrth ddatblygu'r amlinelliad arfaethedig hwn, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd a hefyd sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn ei gwneud yn ofynnol i 70% o'r cymhwyster gael ei asesu drwy asesiad di-arholiad sydd wedi'i osod gan CBAC, wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Gallai hyn olygu rhai heriau o ran hydrinedd ond bwriadwn leihau'r rhain i'r eithaf drwy ganiatáu mwy o hyblygrwydd i ganolfannau a dysgwyr o ran pa bryd y gellid ymgymryd ag asesiadau mewnol yn ystod y ddwy flynedd.

Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cymhwyster fod yn llinol, rhaid cyflwyno'r holl waith yn ystod blwyddyn olaf y cwrs. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso hydrinedd i ganolfannau a dysgwyr, rydym yn cynnig rhoi'r rhyddid iddynt gwblhau eu Project Dylunio unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd unwaith y bydd y dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol. Yn ogystal â hyn, mae CBAC yn bwriadu rhyddhau'r briffiau dylunio ar ddechrau'r cwrs. Bydd hynny wedyn yn rhoi mwy o amser i ddysgwyr brofi, archwilio a datblygu llwybrau a thechnegau dylunio perthnasol cyn iddynt ddechrau ar eu gwaith dylunio eu hunain.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ddewis eu llwybr eu hunain o ddewis o dri, sy'n cynnwys:
- dylunio peirianyddol
- ffasiwn a thecstilau
- dylunio cynnyrch.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddewis un llwybr. Os bydd dysgwyr yn dymuno dewis mwy nag un llwybr, rhaid iddynt wneud hynny fel cymwysterau ar wahân a bydd angen iddynt ymgymryd â phob un o Arholiadau Uned 1 a chynhyrchu canlyniadau ar wahân ar gyfer Project Dylunio Uned 2 ar gyfer pob llwybr a ddewisir.

Credwn fod y tasgau asesu di-arholiad a fwriadwn ar gyfer yr uned Project Dylunio yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad di-arholiad yn ddibynadwy, bydd yr uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu dros amser. Datblygir meini prawf marcio a bydd pecyn o gefnogaeth ar gael i athrawon a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau a dros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith ymgeiswyr o bob canolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dilysrwydd.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

Er mwyn caniatáu i ddysgwyr gael y rhyddid i archwilio a datblygu syniadau heb fod angen goruchwyliaeth ar lefel uchel, rydym yn cynnig bod lefel is o reolaeth dros agweddau ar yr asesiadau di-arholiad. Mae hyn ar yr amod y bydd canolfannau'n gallu dilysu'r gwaith yn ystod gwahanol gamau'r broses. Bwriadwn i'r meini prawf marcio gymeradwyo'r broses o ddatblygu, profi a mireinio syniadau, yn **hytrach na**'u cynhyrchu, gan felly ganiatáu defnyddio AI fel man cychwyn ar gyfer dyluniadau. Fodd bynnag, caiff y prototeip ei weithgynhyrchu o dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn y ganolfan. Bydd lefelau rheolaeth yn cael eu hadolygu yn ystod y broses o ddatblygu'r fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol.

Credwn y gellir asesu pwrpas a chynnwys yr uned Dylunio a Thechnoleg yn yr 21ain Ganrif yn ddilys drwy arholiad, a bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau'n fodd o'n helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, bydd CBAC yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr uned arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Wrth ystyried pwysoliadau'r Amcanion Asesu, bwriadwn addasu'r dyraniad o AA2 ac AA3 yn ôl y goddefiant 5%. Teimlwyd bod cynyddu'r pwyslais ar AA3 o fewn uned yr aseiniad di-arholiad Dylunio Project yn adlewyrchu'r pwyslais ar grefftwriaeth ac ansawdd y canlyniad a'r cynnwys ymarferol o fewn y Meini Prawf Cymeradwyo.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd rhwng hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# Atodiad

## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Dylunio a Thechnoleg Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

### Diben

1. Rhaid i **TGAU Dylunio a Thechnoleg:**
   - 1.1 gael ei ddylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
   - 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
   - 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n eang, yn heriol, yn berthnasol ac yn afaelgar ac sy'n cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
   - 1.4. galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cynnal dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
   - 1.5. darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

### Nodau

2. Rhaid i **TGAU Dylunio a Thechnoleg:**
   - 2.1. ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â chelf a dylunio
   - 2.2 darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

3. Rhaid i **TGAU Dylunio a Thechnoleg:**
   - 3.1 ddeall y technolegau, deunyddiau a'r arferion modern a ddefnyddir i greu cynhyrchion a datrysiadau sy'n bodloni anghenion a dymuniadau defnyddwyr
   - 3.2 dadansoddi a chael ei ysbrydoli gan gynhyrchion presennol sy'n llywio dyluniad a chynhyrchiad datrysiadau ymarferol sy'n targedu defnyddwyr terfynol a marchnadoedd
   - 3.3 cydnabod yr egwyddorion, sgiliau a'r wybodaeth dechnegol sylfaenol sy'n berthnasol mewn llwybrau dylunio a ddewiswyd
   - 3.4 gwerthfawrogi pwysigrwydd creadigrwydd, crefftwriaeth ac arloesi, a gymhwysir drwy gydol yr arferion dylunio iteraidd, wrth ddylunio a chreu cynhyrchion newydd
   - 3.5 gwerthfawrogi'r ffactorau sy'n effeithio ar anghenion a dymuniadau defnyddwyr a sut mae prosesau dylunio iteraidd yn canolbwyntio ar fodloni'r rhain i gynhyrchu cynhyrchion effeithiol
   - 3.6 disgrifio'r sut gall canlyniadau dylunio effeithio ar yr amgylchedd a chymdeithas yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
   - 3.7 defnyddio eu gwybodaeth, sgiliau a'u dealltwriaeth i ddylanwadu ar eu penderfyniadau eu hunain wrth wneud a gwerthuso cynnyrch neu brototeip



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

## Amcanion Asesu

14. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o'r egwyddorion, y deunyddiau, yr adnoddau a'r technegau a ddefnyddir mewn dylunio a thechnoleg | 15% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o'r egwyddorion, y deunyddiau, yr adnoddau a'r technegau a ddefnyddir mewn dylunio a thechnoleg | 35% |
| **AA3** | **Datblygu** dyluniadau a chynhyrchion diriaethol | 30% |
| **AA4** | **Dadansoddi a gwerthuso** cynhyrchion ac atebion mewn ystod o gyd-destunau dylunio a thechnoleg | 20% |

## Cynllun asesu

15. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Dylunio a Thechnoleg** fod yn llinol.

16. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Dylunio a Thechnoleg** ddangos cyfran y marciau (wedi'u pwysoli a/neu'n grai) a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob *Cydran*.

17. Rhaid cynnwys y trefniadau asesu canlynol yn y fanyleb **TGAU Dylunio a Thechnoleg**:
    17.1 arholiad sydd yn
        17.1.1 cyfrif am 30% o'r cymhwyster
        17.1.2 cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
    17.2 yn dilyn cynllun y cymhwyster a'r asesiadau, rhaid i'r corff dyfarnu dargedu'r ddarpariaeth o arholiad digidol yn unig ar ddechrau'r cymhwyster
    17.3 rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu arholiad ar gyfer bob llwybr
    17.4 project dylunio mewn ymateb i friff sydd yn:
        17.4.1 cyfrif am 70% o'r cymhwyster
        17.4.2. cael ei osod gan y corff dyfarnu, ei farcio gan y *Ganolfan*, a'i *Gymedroli* gan y corff dyfarnu
        17.4.3. rhaid gallu cael ei gyflwyno'n ddigidol
        17.4.4 rhaid iddo ganiatáu i *Ddysgwyr* gysylltu â phob cam o'r broses o feddwl am ddyluniad a datblygu:
            17.4.4.1. prototeip diriaethol o gynnyrch neu ddatrysiad i broblem
            17.4.4.2. portffolio sy'n dangos sut maen nhw wedi cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at gamau gwahanol o'r project
    17.5 rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu dewis o gyd-destunau ar gyfer bob un o'r llwybrau sydd ar gael

18. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau yn benodol o ran ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer y cymhwyster **TGAU Dylunio a Thechnoleg** yn unol ag *Amodau a Gofynion ar gyfer TGAU Cenedlaethol.*

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.